# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un) – Trefniadau Cynllunio Gweithredol: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2372A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Adroddiad manwl

Cynllunio gweithredol 5

- Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21 5
- Trefniadau ar gyfer datblygu a chyflawni cynlluniau 5
- Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol 8

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

1 Mae’r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam cyntaf Asesiad Strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ar y trefniadau cynllunio gweithredol yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi’i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi’i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae’n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, a oedd yn cwmpasu’r cyfnod 2020-2023, i gael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, fe ataliodd Llywodraeth Cymru’r broses ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i alluogi cyrff iechyd i ganolbwyntio ar ymateb i’r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19.

3 Fe nododd y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon gylchoedd cynllunio byrrach i gyrff iechyd ar gyfer 2020-21. Roedd canllawiau’n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio, gyda’r gofyniad i gyrff iechyd baratoi cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol ar gyfer chwarteri tri a phedwar (Ch3-4) erbyn 19 Hydref 2020.

4 Mae’r fframwaith cynllunio ar gyfer Ch3-4 2020-21 yn cynnwys cynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i roi arweiniad o ran eu hymateb parhaus i’r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau’r gaeaf a goblygiadau pontio o’r UE. Mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 fe wnaethom ystyried trefniadau cynllunio’r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae’r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy’n tanategu datblygiad y cynllun gweithredol ar gyfer Ch3-4 yn 2020-21.

## Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i addasu a mireinio’i dull cynllunio i ymateb i ofynion newydd, heriau pandemig COVID-19 a chynnal trosolwg ar ei huchelgeisiau hirdymor. Fodd bynnag, o ganlyniad i bwysau gweithredol cafodd rhai agweddau ar fonitro cynnydd ac adrodd ar gynnydd gyda chynlluniau eu hatal dros dro neu eu haddasu yn ystod y flwyddyn ac mae cyfle i egluro’r trefniadau hyn wrth edrych tua’r dyfodol.**

# Adroddiad manwl

## Cynllunio gweithredol

### Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar 2020-21

7 Fe roddodd ein gwaith ystyriaeth i gwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri a Phedwar (Cynllun Ch3-4) 2020-21 yr Ymddiriedolaeth yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

8 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno'i Chynllun Ch3-4 i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn unol â'r graddfeydd amser gofynnol ac er bod y Cynllun yn cwmpasu meysydd perthnasol at ei gilydd, roedd cyfle i ddarparu mwy o fanylder ar gyfer rhai agweddau.**

9 Cafodd Cynllun Ch3-4 ei ystyried a'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth mewn cyfarfod caeëdig wedi'i neilltuo i'r pwrpas ar 16 Hydref 2020. Mae cofnodion o'r cyfarfod yn adlewyrchu lefel dda o drafodaeth rhwng aelodau'r Bwrdd, a roddodd ystyriaeth i Gynllun Ch3-4 yng nghyd-destun y system iechyd ehangach. Wedyn cyflwynwyd Cynllun Ch3-4 i Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser, sef 19 Hydref 2020.

10 Mae canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru'n cwmpasu holl gyrff y GIG yng Nghymru ac yn nodi'r meysydd y mae'n disgwyl iddynt gael eu cynnwys yng nghynlluniau cyrff iechyd. Ceir elfennau o'r canllawiau cynllunio nad ydynt yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth, ac sydd felly heb gael eu cynnwys yng Nghynllun Ch3-4.

11 Hefyd, er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cwblhau'r set ddata sylfaenol y mae'n ofynnol i bob Corff Iechyd ei chwblhau i gyd-fynd â'u Cynllun Ch3-4, yn briodol ni chyflwynodd yr Atodiad i'r Bwrdd gan bod y data y gofynnwyd amdano'n ymwneud yn bennaf â data Byrddau Iechyd, yn hytrach na data ar gyfer gwasanaethau sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth. Cafodd data allweddol a oedd yn ymwneud â chyllid a'r gweithlu ei grynhoi yn y cynllun ei hun i ddarparu trosolwg ar gyfer aelodau.

12 Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, roedd gwybodaeth yr oedd disgwyl iddi gael ei chynnwys dan ganllawiau Llywodraeth Cymru naill ai'n gyfyngedig yng Nghynllun Ch3-4 yr Ymddiriedolaeth neu'n absennol ohono. Er enghraifft, roedd Cynllun Ch3-4 yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am gerrig milltir a threfniadau monitro ar gyfer cyflawni. Yn ddiweddarach cafodd cerrig milltir eu hadnabod trwy'r offeryn tracio.

### Trefniadau ar gyfer datblygu a chyflawni cynlluniau

13 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer datblygu Cynllun Ch3-4 i gefnogi ei hymateb parhaus i COVID-19, cynnal gwasanaethau hanfodol ac adfer gwasanaethau mwy rheolaidd.

14 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i addasu ei threfniadau cynllunio, gan ddefnyddio cudd-wybodaeth o weithgareddau ymgysylltu a rhagweld a tharo cydbwysedd rhwng camau gweithredol, ar unwaith ac uchelgeisiau strategol, tymor hwy.**

15 Wrth ymateb i bandemig COVID-19, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth addasu ei phrosesau cynllunio gweithredol a strategol. Fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2020 bod trefniadau cynllunio gweithredol yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd wedi newid yn sylweddol yn sgîl sefydlu strwythur celloedd. Mae'r celloedd (y cafodd rhai ohonynt eu hailenwi'n ddiweddarach yn dimau) yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o amryw adrannau yn yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys cyllid a'r gweithlu, i'w gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau'n gyflym yn seiliedig ar yr wybodaeth fwyaf diweddar a rhagfynegiadau o'r galw yn y dyfodol. Mae'r strwythurau hyn hefyd yn helpu i liniaru'r risg na fydd penderfyniadau'r Ymddiriedolaeth yn ddigon cyson â'i gilydd ac y byddant yn arwain at fylchau a gwendidau yn ei hymateb i COVID-19.

16 Mewn blynyddoedd yn y gorffennol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynlluniau adrannol lleol (a elwid yn Gynlluniau Cyflawni Lleol) i helpu i oleuo'i chynlluniau strategol sefydliadol (CTCI). Er mwyn datblygu cyfres o gynlluniau chwarterol mewn ffordd amserol yn 2020-21, tîm cynllunio'r Ymddiriedolaeth fu'n bennaf gyfrifol am arwain y broses i ddatblygu cynlluniau, gan ddibynnu ar drafodaeth ehangach trwy ei Thîm Arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a'i chell Parhad Busnes ac Adferiad i sicrhau bod uchelgeisiau a chamau gweithredu'n gyson â'i gilydd ar draws adrannau. Cafodd y cynlluniau eu hystyried a'u cymeradwyo gan Dîm Pandemig Gweithredol yr Ymddiriedolaeth ynghyd â'r Bwrdd i sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu priodol.

17 Mae pob cynllun gweithredol chwarterol wedi nodi sut y gall yr Ymddiriedolaeth bontio rhwng amryw gyfnodau diffiniedig o ran ymateb i'r pandemig, gan gynnwys y meysydd gwasanaeth allweddol y mae angen i'r Ymddiriedolaeth eu gwarchod fel rhan o'i chyfnod 'ymateb' mwyaf critigol i sicrhau y gall ymateb i'r cleifion mwyaf sâl sydd fwyaf mewn angen. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys ymateb ag ambiwlansys, y ganolfan cyswllt clinigol a swyddogaethau ategol megis fflyd. Wrth i'r Ymddiriedolaeth symud rhwng y cyfnod 'ymateb' mwyaf critigol i'r cyfnodau 'adfer' ac 'arferol' mae'r cynlluniau chwarterol hefyd yn nodi sut y gall adfer a sut y bydd yn adfer camau gweithredu eraill, megis cynorthwyo byrddau iechyd gyda'r broses o adfer eu gwasanaethau trwy hwyluso teithio ar gyfer apwyntiadau rheolaidd.

18 Yr allwedd i weithgareddau cynllunio'r Ymddiriedolaeth wrth ddatblygu ei Chynllun Ch3-4, yn ogystal â'r CTCI a ddatblygwyd ganddi yn ddiweddar ar gyfer 2021-24 yw ystyried sut y gall gefnogi llesiant staff yn ystod cyfnod o bwysau parhaus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn glir ynghylch yr angen i ddarparu peth amser adfer ar gyfer ei staff pan fo'n bosibl gan daro cydbwysedd rhwng yr angen i gynnal momentwm o ran ymateb i'r pandemig a mynd ar drywydd dyheadau tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys angen i ystyried staff gwasanaethau gweithredol a chorfforaethol gan ei bod yn anorfod bod pwysau ar y cyntaf o'r rhain wedi effeithio

ar yr ail, er enghraifft gan bod capasiti rheng-flaen wedi cael ei gynyddu i roi cymorth i drawsnewid y system trwy newidiadau i wasanaethau ar gyfer gofal brys, megis rheoli nifer o unedau profi symudol ac arwain ar fentrau cenedlaethol megis Ffoniwch yn Gyntaf.[1]

19 Fel gyda'i chynlluniau chwarterol blaenorol, cafodd Cynllun Ch3-4 yr Ymddiriedolaeth ei oleuo gan ddata a rhagfynegiadau o waith ei grŵp rhagweld a modelu. Mae'r grŵp yma'n defnyddio data modelu cenedlaethol, data o adolygiadau o'r galw a chapasiti a gomisiynwyd yn flaenorol a data o feddalwedd Optima Predict yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu cynlluniau senarios ar gyfer sefyllfaoedd ar unwaith a sefyllfaoedd tymor hwy ac adnoddau gofynnol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus ynghylch gwerth yr wybodaeth hon o ran ei galluogi i fynegi anghenion o ran adnoddau a chynllunio ar eu cyfer.

20 Er gwaethaf yr angen i ddatblygu cynlluniau gweithredol, mwy byrdymor, fe gadwodd yr Ymddiriedolaeth ei ffocws ar wireddu uchelgeisiau strategol, tymor hwy yn ystod 2020-21. Ochr yn ochr â datblygu ei chynlluniau gweithredol chwarterol, yn ystod 2020-21 fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth barhau hefyd i gyflawni a goruchwylio meysydd allweddol yn y CTCI a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar gyfer 2020-3, gan gynnwys ymarfer llwyddiannus i recriwtio dros gant o gyflogeion rheng-flaen ychwanegol fel a ragnodwyd gan adolygiad o'r galw a chapasiti a gynhaliwyd yn 2019. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth set o egwyddorion blaenoriaethu i'w helpu i bennu pa rai o'r blaenoriaethau tymor hwy yn ei CTCI 2020-23 ddylai gael eu cynnal a pha rai ddylai gael eu hatal dros dro neu eu hail-fframio yng ngoleuni pwysau gweithredol uniongyrchol a achoswyd gan COVID-19. Roedd yr egwyddorion blaenoriaethu a'r mecanweithiau sgorio'n ystyried meysydd megis pa un a yw'r cam gweithredu'n debygol o wella ansawdd a diogelwch, pa un a roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r adnoddau a'r cymorth corfforaethol y mae eu hangen a sut y mae'r cam gweithredu o gymorth i liniaru risgiau yn awr a/neu yn y dyfodol. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth yr ymarfer hwn ym mis Hydref 2020 ac fe oleuodd ddatblygiad ei Chynllun Ch3-4.

21 Yn ogystal ag adolygu ei blaenoriaethau presennol a'r angen i addasu ei gwasanaethau i ymateb i'r pandemig, wrth ddatblygu ei chynlluniau chwarterol, bu'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n rheolaidd ag ystod o randdeiliaid i sicrhau bod priod gynlluniau gweithredol yn gyson â'i gilydd. Er enghraifft, bu'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n rheolaidd â Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Grwpiau Cydlynu Strategol ac Adferiad a Rhwydwaith Trawma De Cymru. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod sicrhau cysondeb â chynlluniau byrddau iechyd lleol wedi bod yn her ar adegau, o ystyried y bu angen i fyrddau iechyd gyflwyno newidiadau cyflym i'w gwasanaethau. Mae newidiadau i'r modd y darperir

[1] Menter brysbennu dros y ffôn a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn haf 2020 yw Ffoniwch yn Gyntaf a'i nod yw cyfeirio pobl ar unwaith at y gwasanaeth cywir ar gyfer eu cyflwr neu anaf yn hytrach na bod cleifion yn ceisio gofal yn eu hadran damweiniau ac achosion brys leol.

gwasanaethau mewn byrddau iechyd yn aml yn dwyn goblygiadau ar gyfer gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth ei hun, felly bu pwysau ychwanegol ar arweinwyr gweithredol yn ystod 2020 i adnabod newidiadau o'r fath ac ymateb iddynt yn gyflym. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i gwrdd bob pythefnos â thîm y Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans i drafod gwaith cynllunio.

22 Nid yw'r Ymddiriedolaeth, hyd yma, wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o'i chynlluniau gweithredol chwarterol na'r broses gynllunio a ddefnyddiwyd i'w datblygu. Fodd bynnag, mae'n amlwg yng Nghynllun Ch3-4 ac o siarad gydag aelodau o'r Ymddiriedolaeth ei bod wedi myfyrio ynghylch ei dull. Er enghraifft, mae Cynllun Ch3-4 yn trafod sut, o ganlyniad i weithgarwch cynyddol yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig, y bu angen iddi flaenoriaethu a gwarchod ei swyddogaeth ddiogelu ymhellach i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Roedd Cynllun Ch3-4 yn dangos bod yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi myfyrio ynghylch adborth ac wedi ymateb i adborth gan Lywodraeth Cymru a'r Prif Gomisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans. Er enghraifft, mae Cynllun Ch3-4 yn darparu mwy o fanylder ynglŷn â sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwasanaethau hanfodol byrddau iechyd yn ogystal â mynegi pa mor barod yw'r Ymddiriedolaeth i gyflawni rôl arweiniol gyda mentrau cenedlaethol megis Ffoniwch yn Gyntaf. Cafodd gwybodaeth o arolygon staff ac arolygon cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod 2020 ei defnyddio hefyd i helpu i oleuo gweithgareddau cynllunio'r Ymddiriedolaeth. Enghraifft a nodwyd oedd sut, ar ôl myfyrio ynghylch barn gadarnhaol staff ynglŷn â'r dull cynllunio ar sail matrics, y penderfynodd yr Ymddiriedolaeth beidio ag ailddechrau datblygu cynlluniau datblygu lleol wrth ddatblygu ei CTCI 2021-24 yn ddiweddar.

## Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol

23 Fe wnaeth ein gwaith ystyried trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol ac ar gyfer adrodd ar hynny.

24 Canfuom fod **yr Ymddiriedolaeth wedi atal rhai agweddau ar oruchwylio'r modd y cyflawnir ei chynlluniau gweithredol chwarterol yn ystod y flwyddyn a bod cyfle i egluro trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol ac ar gyfer adrodd ar hynny**

25 Mae Cynllun Ch3-4 yn nodi y bydd cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Trawsnewid Strategol, sy'n adrodd wrth Dîm Arwain Gweithredol yr Ymddiriedolaeth ar bob maes lle ceir risg neu bryder arwyddocaol. Cyflwynodd y Bwrdd Trawsnewid Strategol offeryn tracio newydd i fonitro perfformiad gyda chynlluniau chwarterol yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2020. Mae'r offeryn tracio'n darparu'r cyfle i Dîm Gweithredol yr Ymddiriedolaeth fonitro'r modd y cyflawnir ei chynlluniau chwarterol, trwy asesu cynnydd yn erbyn cerrig milltir, nodi ble nad yw'r gwaith i'w cyflawni ar y trywydd iawn, y rhesymau dros ddiffyg cyflawni a chamau lliniarol.

26 Cafodd y Bwrdd Trawsnewid Strategol ei dynnu oddi ar ddyletswydd rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 ac eto rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Chwefror 2021 oherwydd pwysau gweithredol a achoswyd gan COVID-19. Roedd y pwysau hyn hefyd yn golygu na chafodd yr offeryn tracio a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y Bwrdd Trawsnewid Strategol ei ddiweddaru'n rheolaidd ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar adeg ein gwaith maes. Fodd bynnag, fe ddiweddarwyd yr offeryn tracio ym mis Mawrth 2021 â gwybodaeth fwy diweddar i ddarparu asesiad diwedd blwyddyn o berfformiad yn erbyn camau gweithredu yng Nghynllun Ch3-4.

27 Er bod y Bwrdd wedi cael adroddiad lefel-uchel a oedd yn crynhoi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Ch2 ym mis Gorffennaf 2020, nid yw'r Bwrdd na'r un o bwyllgorau'r Bwrdd wedi cael adroddiad tebyg ar Gynllun Ch3-4 hyd yma. Y rheswm dros hyn yw bod y Bwrdd yn canolbwyntio'n fwy ar gadw goruchwyliaeth ar gyflawni camau gweithredu strategol tymor hwy'r Ymddiriedolaeth nag ar y camau gweithredu mwy byrdymor a nodir yn y cynlluniau chwarterol. Ym mis Ionawr 2021, cafodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad adroddiad a oedd yn rhoi sgôr Coch-Ambr-Gwyrdd ar gynnydd yn erbyn y pump ar hugain o gamau gweithredu yn y CTCI 2020-23 a gafodd eu cynnal yn dilyn yr ymarfer blaenoriaethu (gweler **paragraff 20**). Roedd yr adroddiad yn dangos bod cynnydd da wedi cael ei wneud, gyda mwy na hanner y camau gweithredu wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn, er nad oedd un ar ddeg o gamau gweithredu ar y trywydd iawn a bod angen rhoi sylw ar frys i un cam gweithredu. Darparodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad adroddiad sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ar gynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu yn y CTCI.

28 Gallai gwybodaeth fwy rheolaidd a manwl am gynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu mwy byrdymor (a nodir yn y cynlluniau chwarterol) roi sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd pa un a yw'r camau gweithredu a gynlluniwyd i helpu'r Ymddiriedolaeth i ymateb i'r pandemig wedi cael eu cyflawni ar amser, a lle nad felly y mae hi, pa gamau lliniarol sydd yn eu lle. Byddai parhau i ddefnyddio'r offeryn tracio wedi helpu yn hyn o beth (gweler **paragraff 26**).

29 Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu gwneud gwaith pellach i fireinio ei threfniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir ei chynlluniau a chraffu ar hynny, gan adeiladu ar wersi o'i threfniadau presennol. Er enghraifft, bydd Bwrdd Trawsnewid Strategol yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael yr offeryn tracio i'w helpu i fonitro perfformiad yn erbyn y CTCI 2021-24 a bydd yn datblygu dangosfwrdd cryno i gyd-fynd ag ef. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau hefyd i egluro cyfrifoldeb ac atebolrwydd gweithredol am gyflawni camau gweithredu a nodir yn ei chynlluniau. Yn ddiweddar mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu Swyddfa Cefnogi Trawsnewid i roi cymorth gyda rhaglenni o waith trawsnewidiol allweddol.

30 Yng ngoleuni'r newidiadau a amlygwyd uchod mae cyfle i'r Ymddiriedolaeth wella'i threfniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau a chraffu ar hynny, ar lefel weithredol ac ar lefel y Bwrdd.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.